

## CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari B Jones

Nos Iau Rhagfyr 14eg 2017 am 7.30 y.h.

### Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gerallt Jones, Cyng. Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston ac Enid Williams (Clerc).
3. **Côd Ymddygiad Llywodraeth Lleol:** Mynegodd Gari B Jones ddiddordeb yn eitem rhif 10.2. o'r Agenda sef Cais Cynllunio.
4. **Cofnodion:**
  - 4.1. **Mis Medi** – cynigwyd yn gywir gan Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio.
  - 4.2. **Mis Hydref** – cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gydag Alun Owen yn eilio.
  - 4.3. **Mis Tachwedd** – cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
  - 5.1. Agenda mis Medi:
    - a) BDO – mynegodd Paul Weston ei siomiant nad oedd copi o'r costau yn Gymraeg a gynhigiodd fod y clerch yn anfon atynt a gofyn am gopi Cymraeg.
    - b) Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data – penderfynwyd gadael tan gawn fwy o wybodaeth ar y mater.
    - c) Cyflymdra 20 milltir yr awr heibio'r ysgol – cafwyd nodyn gan y Cyng. Sirol yn dweud ei fod wedi cysylltu â'r Adran Briffyrdd yn gofyn a oes canlyniad i'r 'scoping exercise' y cyfeiriwyd ato rhai misoedd yn ôl, ond dim ateb hyd yma.
  - 5.2. Agenda mis Hydref:
    - a) Llythyr gan Un Llais Cymru yn rhybuddio na chawn ddefnyddio Hill a Roberts fel archwilwyr mewnol gan ei bod yn gwneud y PAYE felly bu rhaid mynd yn ôl at Iona Edwards yn Llanrwst.
  - 5.3. Agenda mis Tachwedd:  
Dim
6. **Gohebiaeth:**
  - 6.1. CGGC - Chwarae Allan 2018 mae diddordeb yn y cynllun ac yn syniad da ond dim pres i dalu. Am ystyried os bydd grantiau ar gael.
  - 6.2. CBSC – wedi derbyn y 3ydd talid o'r presept £1,300.00.
7. **Talu Anfonebau:**
  - 7.1. Canolfan Cymdeithasol Pentrefoelas – tal aelodaeth am flwyddyn, cynigiodd Paul Weston gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu **£25.00**. gyda siec rhif **100309**.
  - 7.2. Talu costau'r clerch am 4 mis o Awst i Dachwedd – cynigiodd Alun Owen gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu **£147.60** gyda siec rhif **100311**.
  - 7.3. CBSC – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Paul Weston yn eilio talu'r anfoneb o **£185.00** + TAW £37.00 = **£222.00** gyda siec rhif **100310** am y sgip gymunedol.
8. **Monitro'r Gyllideb:**  
Cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Owen yn eilio a phawb yn gytûn fod popeth mewn trefn.
9. **Cwblhau'r Gyllideb:**  
Ar ôl edrych dros y gyllideb ac addasu rhywfaint arni cynigiodd Edmund Rees gydag Alun Owen yn eilio a phawb yn gytûn ei derbyn.
10. **Penderfynu ar Presept 2018-19:**  
Cynigiodd Paul Weston gyda Gwynfor Roberts yn eilio a phawb yn gytûn gadael y Presept yr un fath a llynedd **£3,900.00**.

11. **Ceisiadau Cynllunio:**

- 11.1. Cyfeirnod: 0/44603  
Ymgeisydd: Ms Catrin Roberts  
Safle: Bryn Ffynnon Garn, Pentrefoelas.  
Cynllun: Addasiadau i annedd, ymestyn yr annedd i'r tŷ allan sy'n sownd ac estyniad ystafell haul.
- 11.2. Cyfeirnod: 0/44622  
Ymgeisydd: Mr a Mrs G Jones  
Safle: Gors Nug, Pentrefoelas  
Cynllun: Estyniad a newidiadau mewnol.

Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau ar yr un o'r ddau gais.

12. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

13. **Unrhyw fater arall:**

Dim.

14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Ionawr 8fed 2018 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd \_\_\_\_\_  
Cadeirydd

Dyddiad 08.01.2018

